

'os'/'pe'

Rhaid defnyddio 'pe' i ddangos ansicrwydd neu amheuaeth, e.e.

- Pe baswn i'n gwrando mwy, baswn i'n cael gwell graddau.
- Byddwn i wedi talu pe bai arian gen i.

Gyda'r presennol neu'r dyfodol rhaid defnyddio 'os', e.e.

- Os enillaf i'r loteri prynaf gar i ti.

Rhowch 'os' neu 'pe' yn y bylchau isod.

1. Byddai hi wedi ennill y wobr _____ byddai wedi dysgu'r geiriau'n iawn.
2. Gallen nhw gyrraedd mewn pryd _____ bydden nhw'n gadael nawr.
3. Cei di fynd adre'n gynnar _____ byddi di'n dda.
4. _____ bydd hi'n bwrw glaw yfory byddaf yn mynd i'r pwll nofio.
5. Byddwn i'n mynd i'r sinema heno _____ byddai fy mam yn talu.
6. Fyddet ti'n prynu gêm newydd _____ byddai digon o arian gyda ti?
7. Hoffen nhw fynd ar wyliau dramor _____ byddai digon o arian ganddynt.
8. Baswn i wedi paratoi'n well _____ baswn i'n gwybod eich bod chi'n dod.
9. Cofia ddweud wrthyf i _____ cei di neges destun ganddo.
10. Fydd hi'n flin _____ byddi di'n hwyr?